LC181

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ail sefydlu Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 yn y ffurf yr oeddent cyn cael eu diwygio gan Reoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000.

Mae'r diddymiad yn ddarostyngedig i'r eithriad bod y darpariaethau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd yn 2000 heb gael eu heffeithio.

Nid oes darpariaethau tebyg ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Fformad y Rheoliadau**

Bydd angen i'r defnyddiwr gyfeirio'n ôl at destun gwreiddiol Rheoliadau 1995 ac yna cymhwyso'r diwygiadau manwl a wnaed ym 1996 er mwyn canfod effaith y diwygiadau presennol. Yn yr amgylchiadau hyn, awgrymir y gellid bod wedi ystyried ailddeddfu'r rheoliadau yn eu cyfanrwydd.

**Y rhaglith**

Dylai bod troednodyn ar gael i nodi'r gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau sydd wedi breinio'r swyddogaethau dan sylw yn y Cynulliad.

**Y diffiniad o "Rheoliadau 1996"**

Mae'r troednodyn yn rhoi'r rhif OS anghywir.  Y rhif cywir yw 2913.  Dylid cywiro hyn yn y fersiwn brintiedig.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Mawrth 2001